# THOMAS, WILLIAM (1723 - 1811), cynghorwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd

**Enw:** William Thomas
**Dyddiad geni:** 1723
**Dyddiad marw:** 1811
**Priod:** Catherine Thomas
**Rhyw:** Gwryw
**Galwedigaeth:** cynghorwr gyda'r Methodistiaid Calfinaidd
**Maes gweithgaredd:** Crefydd
**Awdur:** Gomer Morgan Roberts

Ganwyd yn y Dyffryn Uchaf, Margam, Morgannwg. Argyhoeddwyd ef dan weinidogaeth Howel Harris yn 1739, ac ymunodd â seiat yr Hafod yn 1743. Ar ôl priodi symudodd i dyddyn ger hen gapel y Dyffryn, a bu ei gartref yn llety fforddolion. Âi'n gyson i'r cymun yn Llangeitho a dechreuodd bregethu. Symudodd i'r T -draw, y Pîl, yn 1760, a phrynodd nifer o dai i'w cymhwyso yn gapel. Yng nghapel y Cyrneli, o barch iddo, y cynhaliwyd cwrdd misol (Calan) y Pîl gan Fethodistiaid Morgannwg am gyfnod maith. Yr oedd yn gyfaill mawr i David Jones, Llan-gan. Teithiodd lawer dros Gymru, ac er ei fod yn bregethwr effeithiol fe'i cofir am ei weddîau yn hytrach na'i bregethau. Yr oedd yn sant mawr hefyd, a dylanwadodd yn drwm ar ei gyfoeswyr. Bu farw 22 Awst 1811, a'i gladdu ym mynwent Margam gyda Catherine, ei briod.

## Awdur

**Y Parchedig Gomer Morgan Roberts**, (1904 - 1993)

## Ffynonellau


*Y Drysorfa*, 1835, 319; 1849, 33

Josiah Thomas Jones, *Geiriadur Bywgraffyddol o Enwogion Cymru* (Aberdâr 1867-70), ii, 562

J. Morgan Jones a W. Morgan, *Y Tadau Methodistaidd* (1895-1897), ii, 112-6

*Methodistiaeth Cymru* (1851–6), iii, 24-8

Edward Morgan, *Home Light, or, Brief memoirs and letters of the Rev. R. Bassett, Vicar of Colwinstone, and E. Bassett, Esq., Glamorganshire* (Carnarvon 1860), 74-5


## Dolenni Ychwanegol

Wikidata: Q20748908


**Dyddiad cyhoeddi:** 1953



**Hawlfraint Erthygl:** http://rightsstatements.org/page/InC/1.0/

Mae'r Bywgraffiadur Cymreig yn cael ei ddarparu gan Lyfrgell Genedlaethol Cymru a Chanolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru. Mae ar gael am ddim ac nid yw'n derbyn cymorth grant. Byddai cyfraniad ariannol yn ein helpu i gynnal a gwella'r wefan er mwyn i ni fedru parhau i gydnabod Cymry sydd wedi gwneud cyfraniad nodedig i fywyd yng Nghymru a thu hwnt.

Ewch i'n tudalen codi arian am ragor o wybodaeth.

Cyfrannu